



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS WRECSAM

Cofnodion Cyfarfod a gynhaliwyd ar 21.09.2017, Ystafell Friffio Lefel 4, Gorsaf Heddlu Wrecsam

Yn bresennol:

Aelodau Craidd:

Lyndsey Rawlinson (LR1) Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd)
 Helen Paterson Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
 Y Cynghorydd Hugh Jones Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (ar ran y Cynghorydd Mark Pritchard)
 Simon Smith Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
 Rob Smith Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
 Sioned Rees Llywodraeth Cymru
 Bob Baines Iechyd Cyhoeddus Cymru (ar ran Angela Tinkler)

John Gallanders AVOW
 Dave Jolly Heddlu Gogledd Cymru (ar ran Alex Goss)
 Judith McGaw Gwasanaeth Prawf
 Llinos Roberts (LR2) Coleg Cambria
 Nina Ruddle Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam

Cyfranogwyr Cefnogi:

Helen Odunaiya Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
 Shan Morris Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Ymddiheuriadau:

Alex Goss Heddlu Gogledd Cymru
 Andy Jones Gwasanaeth Prawf
 Sue Price Coleg Cambria
 Jon Falcus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Cadeirydd PDB1)
 Rus Favager Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
 Lee Robinson (LR3) Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Cadeirydd PDB3)

		Cam Gweithredu
1	Croeso a Chyflwyniadau	
	Croesawodd LR1 fel Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a gwnaed y cyflwyniadau.	
2	Trafodaeth ar thema – Cynllun Drafft Lles Wrecsam	
2.1	Cyflwynodd HO'r cynllun drafft lles i'r DGC ar gyfer trafodaeth. Mae'r gwaith ar hwn yn dal i barhau ac mae'n ddogfen dechnegol i'w hystyried. Cytunwyd y dylid	

2.2	creu fersiwn ymgynghorol gyda'r cyhoedd. Dywedodd RS ei fod wedi cael ei siomi nad oes blaenoriaeth penodol ar gyfer pobl hŷn. Cytunodd y DGC bod y 2 flaenoriaeth wedi cael eu bodloni fel rhan o ymgynghoriad parhaus ac y dylid sefyll wrth hyn. Mae lefel manwl y gwaith i gefnogi'r ddwy flaenoriaeth hyn yn dal i gynnwys pobl hŷn.	HO
2.3	Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn mynd yn fyw ar ddechrau mis Hydref a bydd yn parhau tan ddechrau mis Ionawr, 2018. LR1 i arwyddo manylion yr ymgynghoriad ar ran y DGC i fodloni'r terfyn amser.	LR1 / HO
2.4	Bydd gwaith ar y cynllun yn parhau dros y cyfnod ymgynghori. Awgrymodd y DGC bod angen i'r ddogfen ddweud stori Wrecsam, gan gysylltu'r amcanion gyda phoblogaeth Wrecsam ac mae angen i'r DGC gytuno i wneud rhywbeth gwahanol.	LR1 / HO AT / NR
2.5	Mae AT ac NR yn arwain datblygiad y manylion i gefnogi'r ddwy flaenoriaeth a bydd hyn yn parhau nes bod y drafft yn cael ei gyhoeddi i'r ymgynghoriad cyhoeddus.	Pob Un
2.6	Ar ddiwedd cyfnod yr ymgynghori bydd angen i holl sefydliadau'r DGC arwyddo'r ddogfen derfynol cyn mis Mai 2018. Bydd angen i sefydliadau adael i HO wybod am ddyddiadau cyfarfodydd allweddol mae angen i'r cynllun fynd iddynt i sicrhau bod y DGC yn gallu bodloni eu terfynau amser mewnol.	Pob Un
2.7	I gefnogi'r ymgynghoriad mae gofyn i holl aelodau'r DGC gyhoeddi a hysbysebu'r arolwg pan mae'n fyw, i staff sy'n byw yn Wrecsam ac fel rhan o'r gwaith maent yn ei wneud ar draws y fwrdeistref sirol.	
3	Cofnodion y cyfarfod DGC diwethaf a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2017	
3.1	Cytunwyd ar y cofnodion, yn ddarostyngedig i un ddiwyg fach. I'w cyhoeddi ar wefan y DGC.	HO
4	Cael Gogledd Cymru i Symud – Adroddiad Frifio	
4.1	Rhoddodd BB ddiweddariad i'r DGC ar yr eitem hon. Mae dau brosiect wedi sefydlu gweithgor, mewn perthynas â'r "gweithle" a "mynediad i ofodau awyr agored / amgylchedd naturiol".	BB / AT
4.2	Mae digwyddiad rhwydweithio ar 20 Hydref ym Mhrifysgol Bangor.	Pob Un
4.3	Gofynnodd JG beth oedd y rhwystr i ddefnyddio gofod awyr agored. Cyngorodd BB mai dyma un o'r meysydd gwaith y bydd y gweithgor yn eu hystyried.	B / AT
5	Diweddariad gan PDB1	
5.1	Bydd hyn yn cael ei gario drosodd i gyfarfod nesaf y DGC.	JF
6	Atebolrwydd y DGC – Cyfarfodydd DGC cyhoeddus	
6.1	Yng nghyfarfod mis Mehefin y DGC, gofynnodd y bwrdd am bapur i ystyried atebolrwydd y DGC. Cyflwynodd HO'r papur i'r Bwrdd.	
6.2	Ar hyn o bryd, dim ond 3 DGC yng Nghymru sy'n cyfarfod yn gyhoeddus (o fis Gorffennaf 2017), ond mae'r nifer sy'n mynychu'n isel iawn. Gellir gofyn cwestiynau cyn y cyfarfod ond nid yw'r rhain yn cael eu gofyn yn aml.	
6.3	Cytunwyd ar ddull fesul cam gan DGC Wrecsam. Cytunwyd bod angen i wefan y DGC fod yn annibynnol i'r Cyngor a bod y wybodaeth ar y wefan yn cael ei adolygu.	LR1 / HO
6.4	Bydd y DGC yn cytuno ar ddiwedd pob cyfarfod ar ba adroddiadau sydd angen eu rhoi ar wefan y DGC.	Pob Un
6.5	Wrth dderbyn mwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru parthed â Chraffu bydd gwaith y DGC ar y cyd yn cael ei wneud i ddatblygu'r gwaith hwn.	LR1/HO
7	Unrhyw Fater Arall	
7.1	Dyma gyfarfod DGC olaf HP gan ei bod yn gadael ei swydd yn CBSW. Diolchodd y DGC HP am ei hymrwymiad i'r DGC, a'r BGLI gynt, a dymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd.	Pob Un
7.2	Diolchodd HP'r grŵp a chanmol y DGS ar eu dull gweithio mewn partneriaeth	

	cadarn.	
--	---------	--